

Torri Cystiau

Gwybodaeth i gleifion sydd o dan ofal Uned y Llygaid

Ar ôl Eich Mân Lawdriniaeth ar y Llygad

Ni ddylai'r fân weithdrefn a gawsoch heddiw achosi unrhyw broblemau sylweddol ar ôl i chi fynd yn ôl adref. Mae'r daflen hon yn rhoi arweiniad ac atebion i gwestiynau cyffredin a allai fod gennych ar ôl gadael y clinig.

Ar ôl yr Anesthetig Lleol

Fe chwistrellwyd ychydig bach o anesthetig lleol i'ch amrant er mwyn caniatáu i'r weithdrefn gael ei chynnal yn gyfforddus. Gall gymryd **hyd at 2 awr** i'r effaith ddiflannu'n llwyr.

Wrth i'r anestheteg wisgo i ffwrdd, efallai y byddwch chi'n profi rhywfaint o anghysur. Fel arfer gellir lleddfu'r anghysur hyn gyda chyffuriau lleddfu poen syml megis **Paracetamol**, gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecynnu.

Gwaedu a Glanhau'r Ardal

Efallai y byddwch yn profi ychydig bach o waedu o amgylch yr ardal sy'n cael ei thrin ond fe ddylai stopio'n weddol gyflym.

Os yw gwaed sych yn ludiog:

- Defnyddiwch **wlân cotwm** a dŵr **wedi'i ferwi wedi oeri**
- Glanhewch o gwmpas y llygad yn ofalus
- Sychwch **o du allan i'r llygad am i mewn** (tuag at y trwyn)

Pryd i geisio cyngor

Cysylltwch â ni os:

- Ydych chi'n profi poen sylweddol neu boen sy'n gwaethygu nad yw'n cael ei leddfu gan gyffuriau lleddfu poen
- Yw gwaedu'n parhau neu'n ailgychwyn ac nad yw'n stopio
- Mae gennych bryderon am yr ardal sy'n cael ei thrin

Ble i gael cyngor pellach

Adran Cleifion Allanol

Rhif ffôn: 01633 656268 Oriau: 8:30am - 5:00pm

Y tu allan i'r oriau hyn

Cysylltwch â'r **meddyg Offthalmoleg sydd ar alwad** drwy switsfwrdd yr ysbyty.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**